

# Adroddiad Blynyddol Cadw

Ebrill 2019 i Mawrth 2020 





# Rhagair y Cadeirydd



**Croeso i adroddiad blynyddol Cadw ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2019 hyd at fis Mawrth 2020, yr adroddiad blynyddol cyntaf ers sefydlu bwrdd newydd Cadw. Mae'r bwrdd yn cefnogi cyfeiriad strategol, cynllun busnes a safonau Cadw, yn**

**craffu arnyn nhw ac yn eu monitro. Mae'n tynnu ar wybodaeth ac arbenigedd aelodau annibynnol anweithredol yn ogystal â thîm uwchswyddogion Cadw a chynrychiolydd o blith staff Cadw. A hithau'n asiantaeth fewnol i Lywodraeth Cymru, mae Cadw'n gobeithio bod y drefn newydd hon yn cynrychioli gweledigaeth hyderus a blaengar y corff.**

Ar ran holl aelodau'r bwrdd, hoffwn dalu teyrnged i waith caled staff Cadw drwy'r flwyddyn, sy'n arwydd o'u harbenigedd a'u hangerdd ynghylch treftadaeth Cymru. Yng nghanol mis Mawrth 2020, bythefnos cyn diwedd y flwyddyn ariannol, bu raid i ni gymryd y cam digynsail o gau ein henebion rhag ymwelwyr. Mae tîm Cadw wedi gweithio'n ddifflino ers hynny i ailagor safleoedd yn ddiogel ac i aildechrau ar ein gwaith cadwraeth hanfodol, ar ein harolygon maes a gweithgareddau eraill sy'n cynyddu ymwybyddiaeth a mwynhad o'r adnodd gwerthfawr hwn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig cyfle i ystyried cyflawniadau trawiadol blwyddyn lwyddiannus a phrysur, cyn heriau'r pandemig COVID-19.

**Jane Richardson**

Cadeirydd bwrdd Cadw



Castell Rhaglan, Sir Fynwy.

## Cynnwys

Cyflwyniad	3
Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol	4
Mae sgiliau'n cyfri	8
Trysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol	12
Sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn gweithio er ein llesiant economaidd	16
Cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth	20

# Cyflwyniad



**Mae wedi bod yn flwyddyn o gynnydd mawr mewn sawl maes a ddylai anawsterau dau fis ola'r flwyddyn ariannol, gyda stormydd gerwin ym mis Chwefror a dechrau'r cyfyngiadau COVID-19 ganol Mawrth, ddim bod yn gysgod tros y llwyddiannau anferth cynharach.**

Mae'r adroddiad yn dilyn y pum prif thema a nodwyd ar gyfer amgylchedd hanesyddol Cymru gan y Dirprwy Weinidog, Dafydd Elis-Thomas yn ei *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru*, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2018. Mae'r adroddiad yn dangos yn glir y cydgyssylltiadau agos rhwng y themâu hyn a sut y mae Cadw'n llwyddo i gyflawni ei dyletswydd i ofalu am amgylchedd hanesyddol Cymru a'i warchod, ac ar yr un pryd yn gwella mynediad i'r cyhoedd ac yn sicrhau bod ein hetifeddiaeth yn gweithio er lles cymunedau ac ymwelwyr.

Deddfwriaeth newydd a datblygiadau polisi, megis gweithio tuag at sefydlu y *Cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol* statudol neu ein cyngor ynghylch etifeddiaeth y môr; sy'n gosod sylfaen ar gyfer gwaith uniongyrchol cadwraeth a dehongli. Mae hwnnw, yn ei dro, yn helpu i godi diddordeb a balchder yn ein hetifeddiaeth ymhlith trigolion Cymru ac ymwelwyr fel ei gilydd, gan arwain at y niferoedd aelodaeth uchaf erioed a rhagor o ymwybyddiaeth cymunedol o werth treftadaeth — elfen hanfodol ar gyfer ein gwaith.

Mae llwyddiant masnachol y flwyddyn hon yn golygu ein bod wedi codi mwy o incwm nag erioed o'r blaen i gefnogi ein gwaith craidd o ofalu am yr amgylchedd hanesyddol a sicrhodd hyn fod busnesau a chymunedau lleol yn elwa hefyd.

Llinyn arall drwy ein gwaith yw'r amrywiaeth eang o sgiliau o fewn y sefydliad — o sgiliau crefft traddodiadol o'r radd uchaf a gwybodaeth ddofn o hanes ac archeoleg i ddefnydd o dechnoleg a'r technegau rheoli diweddaraf. Gallwn hefyd gyflawni llawer mwy drwy weithio ar y cyd gyda rhwydwaith cynyddol o bartneriaethau y tu allan i Cadw.

Mae pob adran o'r adroddiad yn cynnwys trosolwg o rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn o dan y pum thema, gan gynnwys graffeg gwybodaeth gyda chrynodeb o'r hyn a gyflawnwyd. Caiff hyn ei ddilyn gan astudiaeth achos fer yn tynnu sylw at brosiect penodol yn y maes gwaith arbennig hwnnw.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfleu elfennau allweddol y fersiwn newydd o'n gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd: arweinyddiaeth, proffesiynoldeb, angerdd, creadigrwydd, dilysrwydd a pharch. Roedd angen yr holl rinweddau hyn tua diwedd y flwyddyn wrth i effeithiau'r pandemig COVID-19 lesteirio ein gwaith. Prawf annisgwyl oedd hwn o wytnwch ein sefydliad ac ymroddiad ein staff, ond gall llwyddiannau'r flwyddyn hyd at hynny wneud i ni deimlo'n hyderus ynglŷn â'r dyfodol.

## Gwilym Hughes


### Pennaeth Cadw



Castell Caernarfon, Gwynedd.

# Gofalu am ein hamgylchedd hanesyddol

---




## HENEBION CADW

**£2,950K** prosiectau cyfalaf cadwriaethol a phrosiectau adfywio

**£1,358K** rheoli adnoddau

**£118K** mân gytundebau cadwraeth ac arolygon

**£210K** deunyddiau cadwraeth a hurio peiriannau



## YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL EHANGACH

**£843K** cyfanswm y grantiau cyfalaf a ddyfarnwyd  
**6** adeilad wedi eu hychwanegu at y rhestr statudol o adeiladau o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol arbennig

**11** heneb wedi eu hychwanegu at y gofrestr o henebion o bwysigrwydd cenedlaethol

**551** o asesiadau cyflwr wedi eu cynnal ar henebion

**104** o orchmynion caniatâd wedi eu cyhoeddi ynglŷn â henebion cofrestredig

**1,132** ymgynghoriad ynghylch ceisiadau cynllunio

**413** ymgynghoriad ar geisiadau caniatâd ynglŷn ag adeiladau rhestredig

**‘Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn garreg filltir o ran y ffordd rydym yn diogelu ac yn rheoli ein treftadaeth.’** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru*.

**Mae prif gonglfeini Deddf 2016 bellach yn eu lle, gan osod Cymru ar y blaen o ran gwarchod treftadaeth hanesyddol. Nhw sy'n rhoi'r wybodaeth a'r fframwaith ar gyfer gwarchod a chadwraeth yn y dyfodol.**

Mae'r *Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yng Nghymru* — yr unig gofnod statudol o'i fath yn y Deyrnas Unedig — yn cynnwys bron 700,000 o gofnodion, gan helpu i arwain awdurdodau lleol ac eraill mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag enwi ac ailenwi manau. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o etifeddiaeth ac arwyddocâd hanesyddol enwau lleoedd.

Un arall o ddarpariaethau Deddf 2016 oedd creu *Cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol*. Erbyn diwedd 2019–20, roedd ymgynghori wedi bod gyda 96% o'r holl berchnogion a meddianwyr wrth baratoi at droi'r gofrestr wirfoddol bresennol yn un statudol.

Ym mis Chwefror 2020, cyhoeddwyd dogfen arloesol arall. Mae *Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Morol Cymru* yn cysylltu â'r Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf erioed i Gymru, gan greu sylfaen ar gyfer gwarchod llongddrylliadau, y 25 tirwedd arfordirol o ddiddordeb hanesyddol arbennig a'r 43 heneb gofrestredig sydd ar dir rhwng dau lanw yng Nghymru, gan gynnwys y safle damwain awyren filwrol cyntaf i gael ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig.

Yn Chwefror hefyd, mewn partneriaeth gyda'n cydweithwyr yn y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, cyhoeddwyd *Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru* sy'n pwysu a mesur effeithiau posib newid hinsawdd ac yn ceisio cynyddu gallu'r sector i wrthsefyll un o brif heriau'r dyfodol.

Yn ei flaen yr aeth gwaith cadwraeth uniongyrchol ar safleoedd Cadw, gyda chreffftwyr medrus Cadwraeth Cymru, adain gadwraeth Cadw, yn mynd yr ail filltir wrth drin amrywiaeth o henebion o Briordy Hwlfordd ac Abaty Nedd i furiau tref Conwy.

Rydym hefyd wedi cynllunio rhaglenni mawr o fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf a chadwraeth sylweddol yng Nghastell Caerffili, sgebor fawr hanesyddol Llys Tretŵr a Phorth y Brenin yng Nghastell Caernarfon. Yno, mae'r gwaith ymlaen llaw ar ganolfan ymwelwyr newydd wedi datguddio tystiolaeth werthfawr o waith carreg cynharach na'r Canol Oesoedd a gweddillion posib castell cynnar mwnt a beili.

Elfen bwysig o waith Cadw yw galluogi a chyllido gwaith cadwraeth gan gyrff eraill a thirfeddianwyr preifat. Roedd y 15 grant ar gyfer adeiladau hanesyddol, cofebau rhyfel a Chynlluniau Treftadaeth Trefweddau yn cynnwys adeiladau crefyddol a chyhoeddus, pont hanesyddol, bwyty ac arcêd mewn marchnad. Roedd 19 o grantiau henebion yn cynnwys safleoedd sy'n cynrychioli miloedd o flynyddoedd o hanes, o gaer gynhanes i beiriant trawst diwydiannol.

Dynodiadau hefyd yw cerrig sylfaen gwarchod a chadwraeth. Roedd cofnodion newydd y flwyddyn yn cynnwys pedwar adeilad o'r ugeinfed ganrif, megis Theatr Clwyd, yn Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, casgliad o adeiladau celfyddydau a theatr pwysig o'r cyfnod wedi'r rhyfel. Yn dilyn rhestru Capel Coffa Capel Celyn, Gwynedd, a godwyd yn 1967 i gofio am golled ddirdynnol cymuned dan gronfa ddŵr, dechreuodd y perchnogion, Dŵr Cymru, ar waith adfer pwysig.



# Harlech P-38F

wedi'i chofrestru oherwydd ei phwysigrwydd hanesyddol ac er mwyn ei gwarchod yn y dyfodol





**Mae awyren ryfel Americanaidd a blymiodd i'r ddaear yn ystod yr Ail Ryfel Byd wedi ei chofrestru gan Cadw — gan olygu mai dyma'r safle damwain awyren filwrol cyntaf yn y Deyrnas Unedig i'w ddynodi'n gyfreithiol a'i warchod oherwydd ei ddi-ddordeb hanesyddol ac archeolegol.**

Daeth yr awyren ryfel Lockheed P-38F Lightning i'r ddaear ar Forfa Harlech, ger glannau gogledd Cymru, ym mis Medi 1942 a dyma'r safle damwain awyren filwrol sydd wedi goroesi orau yng Nghymru. Ac yntau tua 2 fetr (7 troedfedd) o dan y tywod, mae wedi ei ddadorchuddio dair gwaith ers i'r awyren gwympto — yn yr 1970au, yn 2007 ac, yn fwyaf diweddar, yn 2014.

Y peilot adeg y digwyddiad oedd Second Lt. Robert F. Elliott, 24, o Rich Square, De Carolina, a hedodd o Lanbedr, Gwynedd, ar gyrch ymarfer saethu a mynd i drafferthion, gan arwain at y glanio damweiniol. Cerddodd y peilot oddi yno'n ddianaf ond cafodd ei gofnodi'n berson a gollwyd ar faes y gad ychydig fisoedd wedyn.

Mae nai i'r peilot, Robert Elliott, erbyn hyn yn byw yn Kingsport, Tennessee, ac mae wedi ymddeol o fod yn beilot gyda Llynges yr Unol Daleithiau ac yn aelod o Gymdeithas y 49th Fighter Squadron. Dywedodd: 'Rwy'n ei ystyried yn anrhydedd ac wrth fy modd fod Cadw wedi rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i P-38F fy ewythr drwy ei chofrestru'n heneb. Roedd fy ewythr ymhlith y peilotiaid rhyfel dewr a medrus a wasanaethodd gyda chlod yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd fy ymweliad â'r safle yn 2016, gyda fy ngwraig Cathy, yn brofiad teimladwy ac emosïynol iawn.'

Dywedodd y Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, yr Arglwydd Elis-Thomas: 'Mae'r safle hwn o arwyddocâd rhyngwladol ac rwyf wrth fy modd fod y dynodiad hwn yn tanlinellu ei nodweddion arbennig ac yn ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae safleoedd fel hyn yn cynrychioli digwyddiadau na ddylid eu hanghofio a bydd Cymru wastad yn cofio'r rheiny a gyfrannodd at sicrhau'r heddwch yr ydym mor ffodus i'w fwynhau heddiw.'

# Mae sgiliau'n cyfri

---



**5** aelod o staff wedi eu cefnogi gan Gynllun Dysgu a Datblygu Cadw



**3,742** awr wedi eu cyfrannu gan wirfoddolwyr ym Mhlas Mawr (ein prif safle gwirfoddoli) yn 2019 er mwyn bod yn stiwardiaid ac esbonwyr ystafelloedd



Enillodd **gwirfoddolwyr Plas Mawr** categori Cymreig Gwobrau Marsh i gydnabod eu dulliau arloesol o ymwneud â'r cyhoedd

**6** gwirfoddolwr wedi eu sefydlu yn ne Cymru. Ym mis Rhagfyr 2019, bu gwirfoddolwyr o ogledd a de Cymru'n cymryd rhan yng Nghynhadledd Gwirfoddoli Cadw



**15** o bobl ifanc wedi ennill eu Gwobr Gelfyddydau ar lefel 'Darganfod' trwy'r prosiect Etifeddiaeth Ddisylw?

**5** o bobl ifanc wedi ennill Gwobr Gelfyddydau Efydd (achredwyd yn Lefel 1 yn y Celfyddydau)



**‘Mae’r broses o ddiogelu a gwarchod ein hamgylchedd hanesyddol yn dibynnu ar ddealltwriaeth o’i briodweddau arbennig a set o sgiliau crefft cadwraeth penodol. Adeiladwyd o leiaf draean o’r holl adeiladau yng Nghymru gan ddefnyddio dulliau adeiladu traddodiadol. Mae’n hollbwysig bod gennym y sgiliau cywir i’w gwarchod, eu hatgyweirio a’u cynnal a’u cadw.’** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru*.

**Mae sgiliau wrth galon gwaith Cadw, nid yn unig drwy sgiliau crefft meistrolgar seiri maen neu wybodaeth ddofn archeolegwyr a gweithwyr maes ond hefyd, yn gynyddol, yn y sgiliau cyfoes sy’n sail i waith amrywiol y corff hwn.**

Yng Nghadwraeth Cymru, adain gadwraeth Cadw, y mae un o’r cronfeydd pwysicaf o sgiliau adeiladu traddodiadol yng Nghymru. Her barhaus yw sicrhau bod cenhedlaeth newydd o weithwyr yn cael eu datblygu gyda’r un feistrolaeth o sgiliau traddodiadol a’r un ymrwymiad i safon ac egwyddorion cadwraeth.

Daeth tair blynedd lwyddiannus y Cytundeb Partneriaeth Sgiliau Strategol gyda Bwrdd Hyfforddi’r Diwydiant Adeiladu, Historic England a Historic Scotland i ben ym mis Rhagfyr 2019 a dechreuodd y cynllunio ar unwaith ar gyfer cytundeb newydd.

Ym maes sgiliau llai traddodiadol, yn ogystal ag ym maes crefft, mae prentisiaethau’n rhan allweddol o hyfforddiant ac, yn ystod 2019–20, penodwyd dau brentis geidwad newydd a llwyddodd dau brentis yn y gangen Marchnata a Datblygu Busnes i gwblhau eu cymwysterau.

Mae datblygu proffesiynol parhaus yn elfen bwysig o ymagwedd Cadw at sicrhau bod staff yn cynnal a datblygu arbenigedd. Yn ystod 2019–20, cefnogwyd pump aelod o staff i ymgymryd â chymwysterau allanol mewn cyfrifyddiaeth, marchnata, tywys a sgiliau cadwraeth — roedd yr olaf o’r rhain, dan adain y Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB), yn arbenigo mewn meysydd megis cadwraeth adeiladau, dylunio a rheoli prosiectau.

Un o’r anghenion a nodwyd yw rhaglen sgiliau a hyfforddiant bwrpasol yn yr Iaith Gymraeg ac mae Cadw hefyd yn gweithio gyda phartneriaid yn Cymru Hanesyddol i ddatblygu cynllun hyfforddiant wedi’i achredu ym maes gofal cwsmer ar gyfer staff sy’n croesawu’r cyhoedd.

Yn ogystal â hyfforddiant mewnol, mae gan Cadw genhadaeth i wreiddio’r wybodaeth a’r sgiliau sy’n angenrheidiol i weithio ar adeiladau traddodiadol a hanesyddol mewn hyfforddiant, safonau a chymwysterau adeiladu prif ffrwd. Yn ystod 2019–20 roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gyson i Cymwysterau Cymru a’r consortiwm sy’n datblygu cymwysterau newydd mewn adeiladu ac amgylchedd adeiledig.

Yn gyfochrog â’r gwaith hwn, datblygodd Cadw a Historic England adnodd addysgu rhad ac am ddim, *Deall Adeiladau Traddodiadol (cyn 1919) a Hanesyddol ar gyfer Adeiladu ac Amgylchedd Adeiledig*. Bu Cadw hefyd yn cymryd rhan yn y gwaith o adolygu nifer o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, gan ychwanegu cynnwys newydd a datblygu llwybrau newydd ar gyfer goruchwylwyr a rheolwyr safleoedd sydd eisiau arbenigo ar addasu adeiladau sy’n bod eisoes o ran effeithiolrwydd ynni.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o sgiliau adeiladu hanesyddol hefyd yn bwysig o ran ysbrydoli gweithwyr y dyfodol. Cynhyrchodd Cadw fideos yn dangos y gwaith manwl a wnaed i atgyweirio ac ailosod simneiau yn y Castell Coch, tra bod seiri maen Cadwraeth Cymru wedi rhoi arddangosiadau byw, ymarferol o’u sgiliau yn Sioe Fawr 2019. Mae’r gwaith hwn yn cysylltu â chyfraniad Cadw at ddatblygu sgiliau ac ymwybyddiaeth o lwybrau gyrfa drwy ei rhaglen wirfoddoli arobryn, digwyddiadau gyrfa, y rhaglen Ceidwaid Ifanc a ‘Diwrnodau Cymryd y Llyw’.

Ar ddiwedd y flwyddyn, wrth ymateb i’r pandemig COVID-19, creodd staff Cadw adnoddau digidol ar-lein ar gyfer addysgu yn y cartref gan baratoi’r tir ar gyfer cefnogwyr hanes y dyfodol.





# Hyfforddi trwy'r Gymdeithas er Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB)

**Cred SPAB yw fod gan hen adeiladau ddyfodol ac mae eu cyrsiau hyfforddi yn cynnig cymorth i genedlaethau newydd ennill y sgiliau i ofalu amdany'n nhw.**

Wrth hyrwyddo'r dull 'atgyweirio ceidwadol', mae SPAB wedi hyfforddi sawl aelod o dîm cadwraeth crefftus Cadw, gan gyfuno egwyddorion cadarn gyda thechnegau atgyweirio ymarferol.

Bydd ei chyrсияu hyfforddi'n dysgu cynrychiolwyr am weledigaeth SPAB, sy'n rhoi blaenoriaeth i warchod 'deunydd' gwreiddiol pob adeilad, y brif ffynhonnell ar gyfer gwybodaeth ac ystyr — egwyddor sydd o dragwyddol bwys i ni yn Cadw.

Un rhaglen a ddilynwyd gan nifer o dîm Cadw yw Cymrodoriaeth William Morris SPAB — cwrs llawn amser sy'n mynd yn flynyddol o fis Mawrth hyd fis Rhagfyr. Mae'r rhaglen ymarferol wedi ei rhannu'n dri bloc o ddau fis, gan ganiatáu i'r cymrodorion ddychwelyd i'w gwaith rhyngddy'n nhw.

Caiff cymrodorion brofiad o ddeunyddiau, sgiliau a thechnegau atgyweirio traddodiadol mewn gweithdai a thrwy amrywiaeth o ymweliadau safle. Bydd trydydd bloc y rhaglen wedi'i deilwrio at ddiddordebau ac anghenion hyfforddi pob myfyriwr, gan ganiatáu iddyn nhw ganolbwyntio ar feysydd sydd o ddiddordeb arbennig iddyn nhw.

Mae rhaglen SPAB yn ffafrio agwedd ymarferol at hyfforddiant, gan roi cyfle i gymrodorion ddatblygu eu sgiliau ymhellach yn eu maes crefft eu hunain a rhoi cynnig ymarferol ar eraill — o wneud fframiau toeon, toeon gwellt a gwaith gof, i blastro, ysglodio callestr a gwaith maen.

Yn ddiweddar, llwyddodd Luke O'Hanlon, saer maen gyda Cadw, i gwblhau'r cwrs a chael cymorth i gynyddu ei sgiliau a datblygu gwell dealltwriaeth o'r adeiladau y bydd yn eu hadnewyddu yng Nghymru. Trwy Gymrodoriaeth William Morris, cafodd Luke gyfle i deithio i wahanol rannau o wledydd Prydain, o Aberdeen i Ddyfnaint, a chael ei ddysgu gan arbenigwyr ledled y Deyrnas Unedig.



**Luke O'Hanlon (ar y dde) gyda'r Arlwydd Patrick Cormack, Cadeirydd pwyllgor sylfaenu Cymrodoriaeth William Morris SPAB.**

Meddai Luke: 'Diolch i raglen SPAB, rwyf wedi dod ar draws crefftau newydd heblaw gwaith maen ac wedi dysgu llawer am athroniaeth cadwraeth. Mae'r ddamcaniaeth y dylen ni wastad wneud ein gorau tros yr heneb a chadw at egwyddorion cadwraeth yn mynd law yn llaw gydag agwedd Cadw at gadwraeth ac fe fydda' i'n falch o allu ei chymhwyso at bob agwedd o fy ngwaith yn y dyfodol.

'Un o rannau gorau'r rhaglen oedd cael cyfarfod gyda chymaint o bobl ddiddorol a datblygu cysylltiadau ardderchog trwy'r Deyrnas Unedig. Mae bod yn rhan o gymrodoriaeth wedi fy ngalluogi i ddysgu gan eraill a chreu teimlad gwych o gymuned gyda phobl sy'n angerddol ynghylch cadwraeth hanesyddol.

'Mae'r cwrs wedi fy ysbrydoli i barhau i ddysgu sgiliau newydd yn fy ngwaith gyda Cadw ac wedi fy helpu i gynyddu fy hyder a 'ngwybodaeth o 'nghrefft.'

# Trysori a mwynhau ein hamgylchedd hanesyddol

---



**1.26 miliwn**

o ymwelwyr â safleoedd Cadw lle mae staff

---

**34,463** o ymwelwyr â safleoedd treftadaeth Cymreig yn ystod Drysau Agored 2019

**305** o wirfoddolwyr yn rhoi eu hamser i ddarparu digwyddiadau Drysau Agored ledled Cymru



**3,000** cyfranogwr estyn allan

**66,215** ymweliad dysgu gydol oes â safleoedd Cadw



**42,408** o gynnydd mewn ymwelwyr â digwyddiadau dan arweiniad Cadw



**44,100** aelod

**5,104** aelodaeth

newydd wedi'u gwerthu



**31%** o gynnydd mewn incwm o ddigwyddiadau a thocynnau mynediad



**Llyfr tywys Castell Harlech** yn ennill gwobr 'Llyfr Tywys Gorau' yng ngwobrau Cymdeithas y Mentrau Diwylliannol

**Cylchgrawn Cadw, Etifeddiaeth y Cymry** yn ennill gwobr 'Cyhoeddiad Gorau' yn seremoni Wobrau PRide CIPR Cymru Wales



**‘Mae safleoedd Cadw yn gasgliad gwirioneddol wych, ac maent yn rhoi cyfle unigryw i arddangos y dreftadaeth sydd gennym i’w chynnig fel cenedl. Gallant osod yr esiampl a all drawsnewid agweddau.’** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru.*

**Mae Cadw’n gweithio ar sawl lefel, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, i ysbrydoli pobl Cymru ac ymwelwyr i garu a gwerthfawrogi henebion, adeiladau a thirweddau hanesyddol.**

Un o lwyddiannau mawr y flwyddyn oedd cynnydd o 21.5% mewn aelodaeth i’r lefel uchaf erioed o 44,100. Roedd ffigurau ymwelwyr hefyd yn sylweddol uwch gyda ffigwr trawiadol o 1.26 miliwn yn dod i safleoedd lle mae staff a llawer rhagor yn ymweld â’n safleoedd di-staff ledled Cymru.

Byddai’r ystadegau’n fwy trawiadol fyth oni bai am stormydd Chwefror 2020 a’r angen i gau holl safleoedd Cadw ganol Mawrth yn ymateb i’r pandemig COVID-19. Ond roedd cryfhau incwm aelodaeth a datblygu marchnada digidol wedi rhoi’r sefydliad mewn man cadarn ar gyfer yr argyfwng i ddod. Mae graddfa cadw-aelodau o 87% o flwyddyn i flwyddyn yn arwydd o deymgarwch aelodau a’r gwerth y maen nhw’n ei roi ar waith Cadw.

Cwblhawyd y gwaith o roi golwg a theimlad newydd i wefan Cadw a chafodd y wefan ar newydd wedd ei lansio ym mis Mehefin 2019, gyda sylw i rychwant llawn gweithgareddau Cadw. Parhaodd y gwaith o gynnig deunydd dehongli a phrofiadau cyfranogol newydd i ymwelwyr â henebion Cadw, a datblygiad o bwys arbennig oedd gosod deunydd dehongli newydd sylweddol yng Nghastell Coch.

Ym mis Mawrth 2020, enillodd llyfr tywys Cadw *Castell Harlech* wobwr y ‘Llyfr Tywys Gorau’ yng ngwobrau’r Gymdeithas Mentrau Diwylliannol a chafodd ei alw’n ‘llyfr tywys smart’ gyda chlwr deniadol a phris fforddiadwy’. Ynghynt yn y flwyddyn cipiodd cylchgrawn aelodau Cadw, *Etifeddiaeth y Cymry*, gategori y ‘Cyhoeddiad Gorau’ yng seremoni Gwobrau Sefydliad Siartredig Cysylltiadau Cyhoeddus (CIPR) Cymru Wales.

Mae sicrhau bod pobl yn gallu mynd i adeiladau hanesyddol a henebion y tu allan i stad Cadw yn rhan allweddol arall o waith y corff. Nid prosiectau cadwraeth yn unig yw grantiau ar gyfer adeiladau hanesyddol. Maen nhw’n helpu cymunedau i adfywio a chynnal y defnydd o adeiladau hanesyddol lleol annwyl. I adeiladau fel Neuadd Marchnad Aberteifi, capel yn Llithfaen ym Mhenrhyn Llŷn neu Theatr y Stiwt yn Rhosllannerchrugog, Wrecsam — cyn sefydliad glowyr sydd bellach yn ganolfan gelfyddydau leol — mae gwaith cadwraeth ac atgyweirio’n hanfodol er mwyn eu galluogi i barhau yn adnoddau cymunedol byw.

Yn fwy strategol, bu Cadw’n ymgynghori ynghylch deunydd cynghori newydd ar gyfer mynediad rhwydd i adeiladau rhestredig yng Nghymru. Y nod yw dangos sut y mae modd sicrhau mynediad rhwyddach drwy waith adeiladu, o fân welliannau i atebion cynllunio modern o’r safon uchaf.

Mae mynediad y dyddiau hyn yn cynnwys adnoddau digidol. Un llwyddiant trawiadol yw’r cynnydd o 650% yn y defnydd o Cof Cymru, map ar-lein chwiladwy Cadw, sy’n dangos safleoedd hanesyddol dynodedig. Cynyddodd yr ymweliadau â thudalennau i bron 35,000 erbyn diwedd 2019–20 ac mae trefniadau ar droed i ychwanegu gwybodaeth o’r adnodd arfaethedig, *Cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol Cymru*.

Roedd technoleg newydd yn aml yn sail i lwyddiant Rhaglen Treftadaeth Ddisylw? Cadw, a ddechreuodd ar ei thrydedd flwyddyn o dair yn ysbrydoli pobl ifanc ledled Cymru i drysori eu hamgylcheddoedd hanesyddol llai adnabyddus. Cyflwynwyd eu gwaith yn y gynhadledd Gorffennol Digidol yn Aberystwyth ym mis Chwefror 2020. Un o’r arddangosiadau ymarferol mwyaf poblogaidd oedd ail-gread o Lofa Fernhill yn y Rhondda, gan ddefnyddio’r gêm fideo Minecraft.

# Drysau Agored 2019

**Bob mis Medi, bydd cannoedd o wirfoddolwyr ledled Cymru yn trefnu digwyddiadau lleol i ddathlu ein hanes a'n diwylliant gwych. Mae'n gyfle i weld mannau cudd a chael profiadau newydd — y cyfan yn rhad ac am ddim.**

A hithau wedi ei sefydlu yn 1994, gŵyl Drysau Agored yw cyfraniad Cymru at Ddyddiau Treftadaeth Ewrop sy'n digwydd mewn 50 gwlad ledled y cyfandir. Gan gynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, mae'r ŵyl yn bartneriaeth unigryw a chryf, yn gweithio gyda chyrrff ac unigolion trwy Gymru.

O'i sefydlu gyda llond llaw o ddigwyddiadau yn 1994 i fwy na 1,000 heddiw, tyfodd Drysau Agored i fod yn ŵyl dreftadaeth fwyaf y wlad ac mae'n parhau i ffynnu, gan adlewyrchu etifeddiaeth ddiwylliannol gyfoethog ac amrywiol Cymru a'i chymunedau. Mae yna wastad storïau newydd i'w dweud a mannau newydd i'w hagar. Mae'n gyfle i gymunedau ledled y wlad ddod ynghyd i ddysgu, i archwilio ac i gael hwyl drwy rannu'r trysorau ar garreg eu drws.

Yng Nghymru, roedd Drysau Agored 2019 yn cynnwys 245 safle, lle cynhaliwyd 1,130 o ddigwyddiadau. Croesawodd y rhaglen 34,463 o ymwelwyr i safleoedd treftadaeth Cymreig yn ystod mis Medi.





Castell Cas-gwent, Sir Fynwy, oedd un o'r safleoedd mwyaf poblogaidd yn ystod Drysau Agored 2019.

Roedd y safleoedd mwyaf poblogaidd yn cynnwys cestyll Cadw yng Nghas-gwent a Harlech, ynghyd â safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghastell Powis a'r Waun. Ynghyd â'r safleoedd mwy yma, agorwyd drysau llawer o safleoedd anarferol trwy Gymru, gan gynnwys Llwyn Celyn, safle Ymddiriedolaeth Landmark yn Sir Fynwy, ac adeiladau bychain ond poblogaidd megis tŷ cwch Dylan Thomas yn Sir Gaerfyrddin.

Fel ym mhob blwyddyn, fyddai rhaglen Drysau Agored ddim wedi bod yn bosib heb ymdrechion diflino ein trefnwyr a'n gwirfoddolwyr. Yn 2019, rhoddodd 305 o wirfoddolwyr eu hamser i gynnal digwyddiadau ledled Cymru.



# Sicrhau bod ein hamgylchedd hanesyddol yn gweithio er ein llesiant economaidd

---

## YSTADEGAU ALLWEDDOL

Mae tai hanesyddol, gerddi, cestyll, abatai, henebion ac amgueddfeydd yn gyfranwyr allweddol at economi twristaidd Cymru. Yn 2018–19, ymwelodd **26.54 miliwn** o bobl â Chymru oherwydd yr amgylchedd hanesyddol, gan wario **£1.72 biliwn**.

Gyda'i gilydd, mae sector yr amgylchedd hanesyddol, twristiaeth dreftadaeth ac adeiladu treftadaeth yn cynnal **40,670** o swyddi, bron **3%** o holl swyddi Cymru.

## GWEITHGAREDD MASNACHOL CADW



**£312K** o gynnydd mewn incwm, 4.06% yn uwch nag yn 2018/19



**£8,003K** o incwm masnachol — y mwyaf erioed



**£972K** o gynnydd mewn incwm aelodaeth\*



**£1,982K** o incwm gwerthu nwyddau



**£460K** o incwm o hurio masnachol



**£4,752K** o incwm mynediad

\*Mae ffigwr cyfanswm incwm 2019–20 wedi ei gymryd o'r CRM, sy'n cynnwys TAW.



**‘Gall gwarchod, gwella a dathlu ein safleoedd a’n tirweddau hanesyddol gyfrannu at leoedd trawiadol a chymunedau gwydn; gallant ddenu buddsoddiad o’r tu allan a chyflogaeth, a gallant greu lleoedd deniadol i fyw, dysgu, gweithio a buddsoddi ynddynt.’** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru*.

**Os bydd safleoedd Cadw’n ffynnu, bydd y cymunedau o’u cwmpas yn ffynnu hefyd. Dangosodd arolygon, er enghraifft, fod mwyafrif ymwelwyr tramor yn cael eu denu i Gymru oherwydd adeiladau hanesyddol a henebion.**

Hyd yn oed o ystyried trafferthion ei dau fis olaf, mae 2019–20 wedi bod yn flwyddyn hynod o lwyddiannus i Cadw. Croesodd yr incwm a godwyd drothwy £8 miliwn am y tro cyntaf, gan gynnig cyllid allweddol ar gyfer gweithgareddau Cadw, gan gynnwys gwaith cadwraeth. Cyflawnwyd y ffigurau hyn gyda chymorth ymgyrchoedd hyrwyddo wedi’u targedu, datblygiad gwerthiant tocynnau ar-lein a hwyluso’r broses archebu ar gyfer y diwydiant teithio a threfnwyr gwibdeithiau.

Wrth foderneiddio a symleiddio ein prosesau ymaelodi, archebu a phrynu tocynnau drwy ddefnydd o’r dechnoleg ddiweddaraf, gobeithiwn gynyddu nifer yr ymwelwyr â’n safleoedd a’r amser y byddan nhw’n ei dreulio yno. Bydd hyn, yn ei dro, yn cynnig mwy o gyfleoedd i’r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a’u busnesau lleol.

O dan bob pennawd incwm bron, roedd y ffigurau’n uwch nag ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac, oni bai am stormydd mis Chwefror a chyfnod clo mis Mawrth, roedden nhw ar y ffordd at wneud yn well na’n targedi uchelgeisiol. Yn ogystal â chynnydd sylweddol mewn incwm aelodaeth a mynediad, blodeuodd ein siopau a’n gwasanaeth gwerthu ar-lein hefyd — maen nhw bellach yn cynhyrchu ddwywaith yr arian sy’n cael ei fuddsoddi ynddyn nhw. Bydd cymaint ag sy’n bosib o’r nwyddau yn dod o Gymru, gan gynnig incwm gwerthfawr i fusnesau.

Rydym hefyd yn datblygu strategaethau sydd wedi’u targedu’n fwy manwl, gan gydnabod bod marchnadoedd yn amrywio o safle i safle. Yn ystod y flwyddyn cynlluniwyd dewis newydd o nwyddau Cymreig egsgliwsif — bydd y Casgliad Trefadaeth yn ychwanegu lefel arall at y nwyddau sydd gennym ar werth.

Enillodd tai gwyliau Cadw eu plwyf yn ystod y flwyddyn. Roedd y pum fflat gyferbyn â Chastell Harlech a’r tri bwthyn gwyliau — yn Abaty Tyndyrn a’r Castell Gwyn yn Sir Fynwy a Llys a Chastell Tretŵr ym Mhowys — yn boblogaidd, gan ddenu ymwelwyr i dreulio amser a gwario arian yn eu cymunedau lleol.

Trydedd ffynhonnell uwch nag erioed o incwm oedd llogi safleoedd Cadw ar gyfer digwyddiadau o bob math, o weithgareddau cymunedol i briodasau. Mae hyn hefyd yn cynnwys defnydd proffidiol o’n safleoedd gan griwiau teledu a ffilm.

Ond mae budd economaidd gwaith Cadw yn llawer dyfnach. Mae sicrhau defnydd newydd i adeiladau hanesyddol a’u paratoi at y dyfodol yn gwneud cyfraniad pwysig, yn arbennig mewn canol trefi ble mae nifer y bobl sy’n galw yno yn gynyddol bwysig. Mae esiamplau’r flwyddyn yn cynnwys cymorth grant at atgyweirio ac adnewyddu Neuadd y Dref Maesteg yng Nghwm Llynfi, Pen-y-bont ar Ogwr, sy’n rhan o gynllun i adfywio canol y dref i gyd. Yn ogystal, cwblhawyd y gwaith o adfer Tŷ’r Twrbîn ar stad Margam ger Port Talbot. Bydd hyn yn cynyddu nifer yr ymwelwyr yno ond mae hefyd yn golygu y bydd trydan-dŵr yn gwneud y safle’n fwy hunan-gynhaliol. Gall buddsoddi mewn cadwraeth olygu buddsoddi yn y dyfodol hefyd.



Gŵyl Hanes y Plant yng Nghastell Caerffili yn haf 2019.





# Gŵyl Hanes y Plant

**Daw'r rhan fwyaf o incwm masnachol Cadw o werthu tocynnau mynediad ac rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gynyddu nifer ymwelwyr ac incwm yn ystod y blynnyddoedd diwethaf drwy ymgyrchoedd marchnata arobryn, deunydd dehongli newydd a gwell cyfleusterau i ymwelwyr yn ein henebion. Un fenter o'r fath oedd Gŵyl Hanes y Plant pan ddaeth mwy na 25 safle treftadaeth yng Nghymru ynghyd i gynnal y digwyddiad arloesol yma.**

Gyda'r bwriad o gynnig agwedd gyfoes at addysg treftadaeth i blant o Gymru a thu hwnt yn ystod gwyliau'r haf, roedd yr ŵyl genedlaethol yn llwyddiant ysgubol, gan groesawu mwy na 198,000 o ymwelwyr a chynhyrchu mwy na £1m mewn incwm mynediad rhwng 1 a 25 Awst.

Gyda mwy na 100 o ddigwyddiadau ledled y wlad, gan gynnwys 'Agoriad Mawreddog', yng Nghastell Caerffili a seremoni gloi swyddogol yng Nghastell Biwmares, anogodd yr ŵyl gyntaf hon haneswyr ifanc i archwilio hanes epig Cymru drwy amrywiaeth eang o weithgareddau addysgol 'cŵl' — o weithdai codi cestyll Lego a gwersi ysgol mewn cleddyfa i sesiynau braslunio cymeriadau canoloesol a sgysiau rhyngweithiol am y menywod yn hanes Cymru.

Ynndo'i hunan, llwyddodd yr 'Agoriad Mawreddog' i ddenu 2,720 o ymwelwyr tros ddeuddydd (1–2 Awst), gyda miloedd o deuluoedd yn tyrru i Gastell Caerffili i ymuno yn yr hwyl. Wedyn, yn ystod y 'Diweddglô Mawr' yng Nghastell Biwmares, daeth 2,293 ymwelydd i'r safle ar 24 a 25 Awst, i gloi'r mis o ddathlu.

At hyn, helpodd yr Ŵyl i gynhyrchu £398K o incwm siopau yn y safleoedd oedd yn cymryd rhan — cynnydd o 3.1% o gymharu ag Awst 2018.

Roedd yr ŵyl yn rhan o ymgyrch *Ailddarganfod Hanes Cadw* a grëwyd i dynnu sylw at berthnasedd gyfoes treftadaeth Cymru yn ystod *Blwyddyn Ddarganfod 2019* Croeso Cymru.

Wedi'r digwyddiad, cadarnhaodd ymateb positif gan ddefnyddwyr ar lwyfannau digidol Cadw fod yr ŵyl yn llwyddiant mawr:



# Cyflawni drwy weithio mewn partneriaeth

---

## PARTNERIAETHAU MARCHNATA



**1,030** o ymwelwyr wedi defnyddio cynnig 'dau am bris un' gyda Thrafnidiaeth Cymru

**2,000** o ymwelwyr yn defnyddio cynnig 'dau am un' gyda Menyn Country Life



**17,892** aelod o Gyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil yn ymweld â safleoedd Cadw yn sgil ein partneriaeth

## PROSIECT TREFTADAETH DDISYLLW?



**10** digwyddiad treftadaeth cyhoeddus ledled Cymru wedi eu trefnu a'u cynnal gan bobl ifanc yn gweithio gyda **7** lleoliad treftadaeth a hamdden gwahanol

**6** corff treftadaeth a **6** corff gwasanaethau ieuenctid, ynghyd ag amrywiaeth o arbenigwyr, yn cyflawni'r prosiect Treftadaeth Ddisyllw?

**4** swydd lawn amser (cyfatebol) wedi eu cynnal ledled Cymru am 3 blynedd drwy gyllid Treftadaeth y Loteri Cenedlaethol

**20** o bobl ifanc yn ennill cymwysterau cydnabyddedig

**‘Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o lwyddiannau sector yr amgylchedd hanesyddol wedi bod yn seiliedig ar bartneriaethau effeithiol.’** Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, Dirprwy Weinidog tros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru.*

**Mae gweithio drwy bartneriaeth yn llinyn arian yng ngweithgareddau a gweithrediadau Cadw, o gydweithio strategol i roi gwybodaeth a chyngor i gyrff eraill i weithio'n agos gyda'r cyhoedd yn eu cymunedau.**

Ym mis Ionawr 2020 cyflwynwyd yn swyddogol y dogfennau i enwebu Tirweddau Llechi Gogledd-orllewin Cymru yn ymgeisydd am Statws Treftadaeth y Byd. Mae Cadw yn aelod craidd o'r Bartneriaeth Lechi dan arweiniad Cyngor Gwynedd a bu gan swyddogion ran fawr yn y gwaith o baratoi'r ddogfen enwebu a'r cynllun rheoli. Mae hyn yn gysylltiedig â gweithredu, gan gynnwys dynodiadau newydd, rhoi grantiau, paratoi cynlluniau rheoli ar gyfer safleoedd unigol a chynnig cyngor i berchnogion a rheolwyr safleoedd.

Cafwyd datblygiad strategol pwysig arall ym mis Chwefror 2020 pan arwyddodd penaethiaid Cadw a Chyfoeth Naturiol Cymru Femorandwm Dealltwriaeth yn ymrwymo'r ddau gorff i gydweithio'n glosiach ar flaenoriaethau cyffredin. Bydd y Memorandwm yn arwain at gynllun gweithredu.

Parhaodd Cadw i gynnig arweinyddiaeth gref a chymorth ysgrifenyddol ar gyfer Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol, gyda chyfarfodydd hwnnw'n cynnwys trafodaethau ar effeithiau posib newid hinsawdd a Brexit. Mae Partneriaeth Cymru Hanesyddol yn fforwm pwysig arall; enghraifft o'i gwaith oedd creu cynllun 'Cyfaill Beirniadol', gyda staff o'r pedwar corff yn y bartneriaeth yn ymweld yn anhysbys â safleoedd ei gilydd i gynnig cyngor adeiladol ynglŷn â gwasanaeth cwsmeriaid.

Roedd partneriaethau uniongyrchol yn ystod 2019–20 yn cynnwys datblygu cynllun marchnata gyda Thrafnidiaeth Cymru, er mwyn cynnig mynediad 'dau-am-un' i Gastell Conwy i deithwyr trên a chytundeb marchnata a gwerthu tocynnau gydag Amgueddfa Cymru ym Mlaenafon a Chaerllion lle mae gan y ddau gorff atyniadau o bwys.


Yn ddiethriad, mater o bartneriaeth yw gwaith cadwraeth a gwarchod llwyddiannus. Wrth i adnodd newydd statudol y *Cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol* gael ei ddatblygu, roedd Cadw'n falch o gymeradwyo system achredu Safle Treftadaeth Gwyrdd Cadw Cymru'n Daclus, sy'n rhoi gwerth ar etifeddiaeth parciau a llecynnau gwyrdd ac yn eu hyrwyddo.

Ar Glawdd Offa, lle mae Cadw'n gweithio gyda Historic England a Chymdeithas Clawdd Offa ar Gynllun Rheoli Cadwraeth uchelgeisiol, aml-ddisgyblaeth a thrawsffiniol, cyflogwyd swyddog prosiect. Roedd Cadw hefyd yn rhan o brosiect amgylcheddol a gyllidwyd gan Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol, cynllun sy'n cynnwys gwaith i reoli a gwella cyflwr 100 o henebion cofrestredig ym Mynyddoedd y Carneddau yng ngogledd Cymru.

Mae awdurdodau lleol yn bartneriaid pwysig wrth gynnal gwasanaethau cadwraeth. Roedd gweithgareddau'n cynnwys cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi, yn canolbwyntio ar weithredu rheoliadau adeiladau rhestredig. Ar lefel arall, mae cynghorau lleol wedi bod yn bartneriaid agos mewn cynlluniau cadwraeth mawr — yng Nghaerffili, er enghraifft, bu'r awdurdod lleol yn gweithio gyda Cadw i ddarparu mynediad rhwyddach i deithwyr bysiau gwibdaith i'r castell.

Ar lefel ehangach fyth, roedd trafod a chydweithio gyda'r gymuned a chyrrff lleol yn allweddol yn ystod rhaglen o waith yng Nghastell Coety ger Pen-y-bont ar Ogwr ac mae pobol fusnes Caernarfon wedi cyfranogi'n llawn mewn trafodaethau am waith sylweddol ar Borth y Brenin yn y castell yno. Mae partneriaeth yn allweddol, yn genedlaethol a lleol.

Yn Abertawe a Phen-y-bont  
ar Ogwr, bu gweithwyr  
proffesirol ym maes  
treftadaeth a sglefrfyrdwyr  
yn trafod eu barn am  
safleoedd treftadaeth.



## *Treftadaeth Ddisylw?*

POBL IFANC YN DARGANFOD  
HANES COLL CYMRU





**Ym mis Mawrth 2021, daw ‘r prosiect Treftadaeth Ddisylw? i ben. Am dair blynedd, mae cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Cenedlaethol wedi ein galluogi i weithio gyda phartneriaid ledled Cymru ar raglen arloesol o weithgareddau yn cysylltu pobl ifanc gyda’u treftadaeth leol.**

Consortiwm dan arweiniad Cadw sy’n cynnal Treftadaeth Ddisylw? ac mae’n cynnwys staff Cadw, pedair ymddiriedolaeth archeolegol Cymru a’r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Cymru (CBHC). Mae wedi cynnal saith prosiect rhanbarthol mewn ardaloedd lle nad yw’r cyrff treftadaeth, yn draddodiadol, wedi bod yn amlwg iawn ac mae wedi canolbwyntio ar dreftadaeth o’r bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r ugeinfed — treftadaeth sydd ar garreg drws pobl ond yn aml wedi’i hesgeuloso.

Mae gweithio ynghyd wedi caniatáu inni ddatblygu prosiectau unigol, wedi’u teilwrio i gymunedau unigol, ond gyda hunaniaeth genedlaethol gref. Galluogodd ni i rannu gweithgareddau, digwyddiadau a syniadau; i roi cyfle i bobl ifanc ymweld â rhannau gwahanol o Gymru a dysgu amdany’n nhw, gan ehangu eu profiadau bywyd a’u hagweddau.

O’s y consortiwm yw asgwrn cefn Treftadaeth Ddisylw?, ei galon a’i enaid yw’r lluo o unigolion a mudiadau sy’n rhan o’r prosiect. Byddai’r rhaglen yn amhosib heb gefnogaeth gwasanaethau ieuencid cyngorau a mudiadau gwirfoddol, sydd wedi cynnig cefnogaeth ac arbenigedd amhrisiadwy. Mae arbenigwyr o bob math — o ffotograffwyr, archeolegwyr ac artistiaid i ogofawyr, sglefrwyr ac arbenigwyr gêmâu cyfrifiadurol — wedi ein helpu i gynllunio a darparu rhychwant o weithgareddau sydd wedi harneisio creadigrwydd a brwdfrydedd pobl ifanc a chydio yn eu dychymyg.

Onid y bartneriaeth bwysicaf o’r cyfan yw’r un gyda’r cyfranogwyr ifanc. O’r dechrau, roedden ni eisïau gweithio gyda phobl ifanc, nid trostyn nhw; cyn belled â phosib cafodd ein rhaglen ei chyd-gynhyrchu, ond y bobl ifanc sydd wedi helpu i roi cyfeiriad iddi a phenderfynu ar ddeilliannau.

Yn anorfod, mae gweithio gyda chymaint o amrywiaeth o bartneriaid wedi creu ei heriau ei hun ond mae’r gwobrau’n llawer mwy. Rydym wedi rhannu syniadau, wedi dysgu o lwyddiannau (a chamgymeriadau) ein gilydd ac wedi gweld effeithiau positif yn dod o gymryd rhan weithredol yn sectorau’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth. Yn awr byddwn yn ceisio adeiladu ar y partneriaethau a’r wybodaeth yma i sicrhau bod effaith ac etifeddiaeth Treftadaeth Ddisylw? yn parhau.



Llun: Tŵr yr Eryr a Chastell Caernarfon o Afon Menai.

